VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG



# CRYNODEB CYNLLUN GWELLA
## CYNGOR BRO MORGANNWG

## AROLWG BLYNYDDOL o BERFFORMIAD 2015 - 16



Cymunedau
Cryf â
Dyfodol
Disglair

www.bromorgannwg.gov.uk

# CYFLWYNIAD

**Mae'r adolygiad hwn yn edrych yn ôl ar ba mor dda y gwnaethom o ran cyflenwi'r Amcanion Gwella a osodasom i ni ein hunain yn ein cynllun sy'n edrych ymlaen, sef Cynllun Gwella Rhan 1: Amcanion Gwella 2015/16 a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015. Nodwyd pum Amcan Gwella yn ystod 2015/16 a bydd yr adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'n cynnydd hyd yma o ran cyflawni'r rhain.**

## Pa mor dda wnaethom ni yn erbyn ein Hamcanion Gwella?

Er gwaethaf amser heriol i'r Cyngor o ran y gwasanaethau a ddarparwn a'r cyllid sydd ar gael i ni, rydym wedi dod i'r casgliad ein bod wedi cyflawni'n llwyddiannus y rhan fwyaf o'r canlyniadau a nodir yn ein Hamcanion Gwella ar gyfer 2015/16. Fodd bynnag, bydd yr Amcanion hyn yn parhau i fod yn ffocws ar gyfer gwelliant ac yn flaenoriaeth i'r Cyngor yn y tymor hir. Mae ein Cynllun Corfforaethol newydd (2016-20) yn adlewyrchu'r gwaith parhaus hwn.

| Beth ddywedon ni y bydden ni'n ei wneud | Sut mae hyn yn cysylltu â'n blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol (2013-17) | Ein gwerthusiad |
|---|---|---|
| Darparu gwasanaethau cynaliadwy gan gynnwys dulliau amgen o gyflenwi fel rhan o Raglen Newid Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor. | • Rhaglen Newid Ail-lunio Gwasanaethau<br>• Gwella Mynediad at Wasanaethau Cyngor | **Cyflawnwyd** |
| Cefnogi mwy o bobl i fyw'n annibynnol | • Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles: Diogelu aelodau'r gymuned sy'n agored i niwed | **Cyflawnwyd** |
| Cynnal a gwella canol trefi Bro Morgannwg er lles trigolion, ymwelwyr a busnesau. | • Adfywio: Cynnal cymunedau ffyniannus | **Cyflawnwyd** |
| Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant. (NEET) | • Dysgu a Sgiliau:<br>Gwella sgiliau, gwybodaeth a chyfleoedd | **Cyflawnwyd** |
| Cau'r bwlch rhwng cyflawniad disgyblion sy'n cael, a'r rhai nad ydynt yn cael, prydau ysgol am ddim. | • Dysgu a Sgiliau:<br>Gwella sgiliau, gwybodaeth a chyfleoedd | **Cyflawnwyd yn rhannol** |






# Adolygu'r Flwyddyn - Ein Prif Gyflawniadau



Rydym wedi cynyddu a hyrwyddo'n eang y cyfleoedd i'r cyhoedd siarad a chyfranogi yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Cynllunio a Chraffu, gan sicrhau bod dinasyddion yn cael dweud eu dweud yn ystyrlon am y materion sy'n effeithio arnynt, tra hefyd yn rhoi gwybodaeth i'r Cyngor a fydd yn ei alluogi i wneud penderfyniadau effeithiol.



Mae ein cyfradd ailgylchu o 64.54% yn uwch na'r targed statudol o 58% ac yn ein rhoi yn y 3ydd safle yng Nghymru o ran perfformiad Cynghorau.

Mae'r fenter "Big Fill" wedi gwella ein priffyrdd a lleihau hawliadau atebolrwydd, gan gyfrannu at gynyddu bodlonrwydd y cyhoedd.




Mae "Cael y Fro Ar-lein" yn sicrhau bod trigolion y Fro yn cael eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau digidol. Mae'r fenter hon hefyd yn cyfrannu at nod y Cyngor o ymdrin â thlodi ac allgáu cymdeithasol a digidol.

Mae chwe pharc ym Mro Morgannwg wedi ennill y Faner Werdd, un yn fwy na'r llynedd. Mae'r gwobrau hyn wedi cydnabod y mannau gwyrdd o ansawdd uchel yn y Fro. Hefyd cyflawnwyd 3 Gwobr Baner Werdd Gymunedol sy'n cydnabod mannau gwyrdd o ansawdd uchel a reolir gan grwpiau gwirfoddol, sy'n sicrhau lle diogel i drigolion o bob oed ddod at ei gilydd i gymdeithasu a dysgu.



Cofrestrodd 330 o ddefnyddwyr newydd i dderbyn gwasanaethau teleofal, 21 yn fwy na'r llynedd. Mae'r cynnydd yn y niferoedd sy'n manteisio ar y gwasanaeth hwn a gosodiad effeithlon wedi galluogi mwy o bobl i aros yn eu cartrefi eu hunain yn ddiogel a bod â gwell ansawdd bywyd, sef blaenoriaeth allweddol i'r Cyngor.



Gwnaed gwelliannau mewnol i'r holl dai Cyngor fel rhan o'n Rhaglen Gwella Tai Cyngor, ac rydym yn parhau ar y trywydd iawn i sicrhau bod holl stoc dai'r Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â Safonau Ansawdd Tai Cymru erbyn 2017. Mae bodlonrwydd tenantiaid gydag ansawdd y gwelliannau terfynol a wnaed fel rhan o SATC yn parhau'n uchel ar 9.15 (caiff bodlonrwydd cyfartalog ei sgorio rhwng 1 a 10).



Cyflenwyd 158 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn 2015/16. O'r rhain, addaswyd 55 neu eu gwneud yn hygyrch, sydd wedi galluogi'r Cyngor i gynyddu argaeledd cartrefi gweddus, fforddiadwy a hygyrch i'r cyhoedd.



Mae gwelliannau yn parhau i gael eu gwneud i ganol trefi'r Fro fel rhan o fframwaith mabwysiedig y Cyngor. Cyfrannodd hyn at fwy o fywiogrwydd yng nghanol ein prif drefi, gan gynnig amgylchedd gwell i fusnesau, trigolion ac ymwelwyr. Mae cyfraddau unedau gwag yn ein holl brif ganolfannau trefi wedi gwella, rhai yn sylweddol, gan ddangos ymhellach hyder busnesau yng nghanol ein trefi.



Rydym yn parhau i weithio gyda sefydliadau preifat a chyhoeddus a'n hysgolion er mwyn cynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden. Gosodwyd y Fro yn y safle 3ydd uchaf yn yr arolwg chwaraeon ysgol mwyaf diweddar gan Chwaraeon Cymru. Dangosodd arolwg oedolion egnïol mai'r Fro oedd y Cyngor uchaf o ran perfformiad yng Nghymru, o ran y meini prawf "gwirioni ar chwaraeon". Mae ein gwaith i gynyddu cyfleoedd i bobl anabl gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol wedi ennill Gwobr Efydd Insport gan Chwaraeon Anabledd Cymru, y wobr uchaf sydd ar gael ar y pryd.



Nododd Rheoleiddwyr ein hysgolion, ESTYN, y cynnydd cadarn a wnaed gan y Cyngor o ran cyfrannu at wella lefelau cyrhaeddiad disgyblion. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2014/15, cafwyd gwelliant cyffredinol mewn safonau, o ran yr holl ddangosyddion perfformiad allweddol. Ym mhob achos bron bu'r gyfradd gwelliant yn fwy yn y Fro na chyfartaledd Cymru. Barnwyd bod yr holl ysgolion a arolygwyd yn dda neu'n ardderchog.

Cynyddodd presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd 0.5% i 94.7% yn ystod y flwyddyn academaidd 2014/15, gyda chefnogaeth ein cydweithrediad ag ysgolion. Mae hyn yn ein gosod yn y 3ydd safle yng Nghymru. Arhosodd presenoldeb yn ysgolion cynradd Bro Morgannwg yr un fath â 2013/14 ar 95.3%, gan gynnal y Fro yn y 4ydd safle.





Rydym yn parhau i ymgysylltu mwy o ddysgwyr sy'n oedolion i wella eu sgiliau. Rydym wedi cyflwyno "cynlluniwr llwybr dilyniant" er mwyn adnabod bylchau yn y ddarpariaeth, sy'n ein galluogi i dargedu dysgwyr â blaenoriaeth yn well. Mae Dysgu Cymunedol wedi gwella'n sylweddol trwy ymdrechion pob agwedd o weithio'n fwy cydlynol, gyda graddfeydd cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant ar 92%, llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 84%.

Rydym wedi hyrwyddo'n llwyddiannus y nifer sy'n manteisio ar gynlluniau teithio rhatach ar drafnidiaeth gyhoeddus. Cynyddodd y nifer sy'n manteisio ar docynnau bws rhatach i'r rhai dros 60 oed o 82% i 92% gan ein gosod yn y 3ydd safle yng Nghymru. Bu cynnydd o 59% yn y nifer o siwrneiau teithwyr ar gynllun bws Cymunedol Cysylltiadau Gwyrdd ers 2013.







Trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth, rydym wedi gostwng lefelau pobl ifanc yn y Fro nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET). Yn gyffredinol, mae lefelau NEET wedi gostwng o 3.8% yn 2014/15 i 1.93% yn 2015/16.

Derbyniodd pum lleoliad glan môr ym Mro Morgannwg wobrau arfordir cenedlaethol, gan gynnwys dwy wobr Baner Las fawreddog, fel rhan o Wobrau Glan Môr Cadwch Cymru'n Daclus 2016. Cydnabyddir y Faner Las ar gyfer traethau mewn 46 o wledydd ledled y byd ac mae'n anelu at godi ymwybyddiaeth amgylcheddol a hyrwyddo ymddygiad amgylcheddol da ymysg twristiaid a phoblogaethau lleol ac arferion gorau ymysg staff rheoli traethau a marinas.





Sicrhawyd dros £8m o gyllid ar gyfer buddsoddi cymunedol drwy osod cytundebau Adran 106 ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio yn ystod 2015/16. Defnyddiwyd yr arian i ariannu lleoedd ychwanegol yn yr ysgolion, cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus newydd, gwell palmentydd a llwybrau beicio, cynlluniau celf gyhoeddus, uwchraddio parciau a mannau chwarae i blant, a chyfleoedd hyfforddiant a datblygiad. Mae enghreifftiau yn cynnwys ehangu Ysgol Gynradd Llanfair ac Ysgol Dewi Sant, uwchraddio croesffyrdd Ffordd Gileston a Sain Tathan, gwelliannau i Sarn Ynys y Barri, croesfannau newydd i gerddwyr yn Heol Buttrills a Heol Holton, cysgodfannau bws newydd yn y Barri a Llandochau, llwybr beicio Port Road yn y Barri, adnewyddu ardal chwarae George Street yn y Barri, a'r cynllun mainc Buddy yn Ysgol Gynradd Llangan.



Trwy well ymyriadau a threfniant partneriaeth o ran gwasanaethau adsefydlu ac ailalluogi ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae mwy o ddefnyddwyr y Fro wedi gallu cyflawni annibyniaeth lawn; barnwyd bod gan dros 80% o bobl a dderbyniodd wasanaeth lefelau gwell o annibyniaeth.

Mae'r amser darparu a gymerir ar gyfartaledd i gwblhau Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn parhau i wella er gwaethaf rhagor o alw. Ar gyfartaledd, cwblheir gwaith o fewn178 diwrnod o gysylltu â'r Cyngor, o'i gymharu â 199 yn y flwyddyn flaenorol, sy'n ein gosod yn y 4ydd safle yng Nghymru. Mae boddhad cwsmeriaid yn parhau ar 97%.






# CRYNODEB o BERFFORMIAD

**Am yr ail flwyddyn yn olynol, Cyngor Bro Morgannwg yw'r Cyngor sy'n perfformio orau yng Nghymru, gyda'r mwyaf o ddangosyddion (26) yn chwarter uchaf awdurdodau Cymru. Dangosodd 55% o ddangosyddion welliant ar berfformiad y flwyddyn flaenorol.**


Roedd perfformiad y Fro yn well na chyfartaledd Cymru mewn 75% (33) o ddangosyddion cymharol yn erbyn Rhanbarth De-ddwyrain Cymru. O'i gymharu â holl gynghorau Cymru, roedd perfformiad y Fro yn 77% (34).

Mae hyn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ar 44 o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol yn 2015/16. O'r rhain, mae gan 43 ddata y gellir ei gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dengys y graffiau isod bod y Fro wedi parhau i berfformio'n dda o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru.

## Crynodeb Perfformiad 2015/16




## Nifer y dangosyddion yn ôl Chwartel rhwng 2013/14 a 2015/16




(Seiliedig ar ddata cyhoeddedig LGDU: 19 Awst 2016)

Y meysydd lle gwnaethom berfformio orau (safle 1af yng Nghymru) yw:


- Ni adawodd unrhyw ddisgyblion, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy;
- Cyhoeddwyd 100% o ddatganiadau anghenion addysg arbennig o fewn 26 wythnos (yn cynnwys ac eithrio eithriadau);
- Rheolwyd 100% o'r holl risgiau cyfeirio diogelu oedolion;
- Aseswyd 100% o anghenion gofalwyr;
- Cynhaliwyd cyswllt â 100% o blant sy'n derbyn gofal yn 19 oed;
- Gwyddys bod yr holl blant sy'n derbyn gofal yr ydym wedi cadw cyswllt â hwy mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng, yn 19 oed.
- Sicrhawyd bod gan 100% o blant perthnasol gynlluniau llwybr.

Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i ni wella yn y meysydd hynny lle'r ydym yn perfformio yn y chwartel isaf o'i gymharu â gweddill Cymru. Ymdrinnir â'r materion hyn o fewn cynlluniau perthnasol y Cyngor, ac maent yn cynnwys:

- Ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden;
- Sefydliadau bwyd sy'n cydymffurfio'n gyffredinol â safonau hylendid bwyd;
- Prif ffyrdd mewn cyflwr gwael;
- Asesiadau cychwynnol lle mae'r plentyn wedi cael ei weld gan weithiwr cymdeithasol;
- Cynlluniau gofal i oedolion a oedd yn ddyledus a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn.

## GWEITHIO PARTNERIAETH a CHYDWEITHREDU

**Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i ymdrin â rhai o'r materion cymhleth sy'n wynebu ein dinasyddion a'n cymunedau. Mae'r partneriaethau hyn yn ein galluogi i weithredu mewn modd mwy effeithiol ac effeithlon i wella gwasanaethau i'n dinasyddion. Nodir isod rai o'n cyflawniadau yn ystod 2016/17.**



- Cyfrannodd gwaith y Grŵp Tai Strategol at ddarparu 158 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn 2015/16. O'r rhain, addaswyd 55 neu eu gwneud yn hygyrch, sydd wedi galluogi'r Cyngor i gynyddu argaeledd cartrefi gweddus, fforddiadwy a hygyrch i'r cyhoedd.

- Bu blwyddyn gyntaf y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir (GRhR) yn canolbwyntio ar ddatblygiad model gweithredu newydd a gytunwyd gan y tri chyngor ar draws y Fro, Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd. Cyflawniad allweddol yn 2015/16 oedd cyflwyno busnes fel arfer drwy'r broses newid, gyda'r effaith leiaf ar gwsmeriaid. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth bellach yn cynhyrchu incwm drwy godi am ei wasanaeth cyngor busnes a hyfforddiant, drwy ddatblygu ffyrdd newydd o weithio.

- Cychwynnodd y contract ar gyfer y Prosiect Gwyrdd yn ffurfiol ar 1af Ebrill 2016, gydag arbedion sylweddol eisoes wedi eu gwneud trwy ddargyfeirio gwastraff i'r gwaith yn llawer cynharach nag a drefnwyd. Mae ailgylchu Lludw Gwaelod Llosgydd (IBA) o'r Prosiect Gwyrdd a Pharc Trident ers mis Awst 2015 wedi helpu'r Cyngor i wella ei berfformiad cyffredinol a bydd yn cyfrannu tuag at sicrhau y bydd yn cyflawni ei dargedau cenedlaethol ar gyfer ailgylchu. Yn ystod 2015/16 cyflawnodd y Cyngor gyfradd ailgylchu 64.54% sy'n uwch na'r targed statudol o 58% sy'n ein rhoi yn y 3ydd safle yng Nghymru. Yn ychwanegol at y fantais ychwanegol o adfer gwastraff, mae'r Fro wedi lleihau maint y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi i 5.7%. Gwnaeth y Prosiect Gwyrdd £500k o arbedion yn 2015/16 a disgwylir arbed £1m yn 2016/17.

- Mae cydleoli tîm adnoddau cymunedol y Cyngor a Bwrdd Iechyd y Brifysgol ynghyd â'r trydydd sector i lety a gynlluniwyd yn benodol ar y cyd yn ysbyty'r Barri yn cyflenwi gwasanaeth mwy effeithlon gyda swyddogion yn cydweithio'n agosach. Mae hyn yn cyfrannu at adolygiadau ac asesiadau amserol o achosion a'r cymorth a ddarperir, yn ogystal ag ymateb cyffredinol cyflymach gan y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at i fwy o drigolion y Fro gadw eu hannibyniaeth am amser hirach.






## BETH mae ein RHEOLEIDDWYR yn ei DDWEUD AMDANOM

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

**Yn ystod 2016, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru Asesiad Corfforaethol yng Nghyngor Bro Morgannwg, Pwrpas yr asesiad (a gynhelir bob pedair blynedd) yw ateb un cwestiwn allweddol: p'un a ydym fel awdurdod lleol yn cyflenwi'r blaenoriaethau a osodasom i ni ein hunain a p'un a ydym yn gwella canlyniadau i ddinasyddion y Fro.**

Yn ôl Swyddfa Archwilio Cymru mae gan y Cyngor

**"weledigaeth glir o'r hyn y mae am ei gyflawni ac mae'n gwneud newidiadau cadarnhaol a ddylai sicrhau ei fod mewn sefyllfa dda i barhau i sicrhau gwelliant"**

Nododd yr adroddiad:

- Mae gweledigaeth y Cyngor yn adlewyrchu anghenion lleol a blaenoriaethau cenedlaethol ac mae uwch arweinyddiaeth wleidyddol a swyddogion yn ymgysylltu'n effeithiol â staff i gefnogi newid a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

- Cefnogir yr agenda ar gyfer newid gan arweiniad effeithiol, ac mae llinellau cyfrifoldeb clir sy'n sicrhau gwelliant.
- Mae trefniadau llywodraethu effeithiol wedi sicrhau gwelliannau ac mae trefniadau craffu wedi eu mireinio i werthuso'r canlyniadau, gyda gwybodaeth am berfformiad y Cyngor ar gael yn rhwydd.
- Mae'r gwasanaeth adnoddau dynol ac ymgysylltu staff helaeth yn cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor a'r agenda newid.

Gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwella sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymgorffori'r gwelliannau rheoli perfformiad sy'n datblygu, mireinio gwybodaeth i gefnogi ein cynlluniau arbedion ariannol, a gwaith rheoli asedau, yn ogystal â sicrhau bod gwasanaethau TGCh yn cefnogi'r agenda newid yn llawn. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda i ymdrin â'r rhain. Gellir gweld ein Hadroddiad Asesu Corfforaethol ar www.wao.gov.uk

## BETH mae ein TRIGOLION yn ei DDWEUD AMDANOM




**Mae annog ein cwsmeriaid i rannu eu barn a'u profiadau o'n gwasanaethau yn hyrwyddo ymgysylltu â dinasyddion ac yn gwella ein gwasanaethau. Yn ogystal, mae'n rhoi arwydd o sut yr ydym yn perfformio fel Cyngor o safbwynt y cyhoedd. Bwriedir cynnal yr arolwg nesaf yn ystod gaeaf 2016.**

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Arolwg Barn y Cyhoedd mwyaf diweddar a gynhaliwyd yn 2014/15, rydym yn gyffredinol yn perfformio'n dda o ran boddhad cyffredinol â gwasanaethau'r Cyngor. Er y cafwyd peth gostyngiad mewn cyfraddau bodlonrwydd ar draws yr ystod eang o wasanaethau ers 2012, arhosodd lefelau boddhad yn bositif. Dywedodd y mwyafrif o ymatebwyr (84%) eu bod yn fodlon ar y cyfan â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor, o'i gymharu â 93% yn arolwg 2012/13. Efallai bod y gostyngiad mewn lefelau bodlonrwydd rhwng 2012/13 a 2014/15 i'w briodoli'n rhannol i effaith toriadau yn y gyllideb gwasanaethau cyhoeddus dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Defnyddiwyd y canfyddiadau hyn gan wasanaethau'r Cyngor i wella'r gwasanaeth.

## BETH mae ein STAFF yn ei DDWEUD AMDANOM

**Rydym yn gwybod mai ein staff: eu sgiliau, gallu ac ymroddiad yw'r allwedd i ddarparu a gwella gwasanaethau'r cyngor. Yn 2015 cychwynnodd y Cyngor ar raglen sylweddol o ymgysylltu â staff ar draws pob maes gwasanaeth er mwyn trafod yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf a'r ymateb i heriau o'r fath trwy raglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor.**




Arweiniodd y gwaith hwn at ddatblygu Siarter Staff cyntaf y Cyngor, a lansiwyd ym mis Medi 2016. Mae'r Siarter yn nodi ein hymrwymiad i'n holl weithwyr, i weithio'n effeithiol â hwy mewn partneriaeth i sicrhau'r gwasanaethau cyngor gorau posibl i gymunedau Bro Morgannwg. Cyflwynodd Cynhadledd Rheolwyr Personél Sector Cyhoeddus y DU (PPMA) wobr i ni i gydnabod ein gwaith ymgysylltu â staff.

# EIN CYLLIDEB

**Ein cyllideb refeniw flynyddol ar gyfer 2015/16 oedd £212.355 miliwn. Gwariwyd £45 miliwn ar brosiectau cyfalaf, a gyllidwyd trwy gyfuniad o fenthyca derbyniadau refeniw a chyfraniadau refeniw.**


Yn ystod 2015/16 gwnaethom gynnydd da o ran cyflawni £7.2 miliwn o arbedion effeithlonrwydd ac arbedion eraill. Fodd bynnag, mae angen gwneud cryn dipyn mwy o waith er mwyn cyflawni'r arbedion gofynnol ar gyfer 2016/17 a thu hwnt (£25.4 miliwn rhwng 2016/17 a 2018/19).

## FFYNONELLAU ARIAN Y CYNGOR




Hysbyswyd penderfyniadau yn ymwneud â gosod ein cyllideb am y flwyddyn drwy'n gwaith ymgynghori â thrigolion y Fro a phartneriaid strategol allweddol. Roedd y canfyddiadau hefyd yn hysbysu rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor. Nododd trigolion y Fro eu bod yn cefnogi rhagor o archwilio'r ffyrdd amgen o gyflenwi gwasanaethau a amlinellir yn y Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau.

## Costau Gwasanaethau Cyngor yn 2015/16



# EIN HAMCANION GWELLA MANWL

## 1 Darparu gwasanaethau cynaliadwy a chynnig dulliau gwahanol o gyflwyno'r ddarpariaeth fel rhan o'n Rhaglen Newid Ail-lunio Gwasanaethau.

At ei gilydd rydym wedi cyflawni ein nodau bwriadedig am y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r Rhaglen Newid Ail-lunio Gwasanaethau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor yn y dyfodol. Yn ystod 2015/16:

- Bodlonwyd targedau arbedion 2015/16.
- Mae cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid (gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned a'r sector gwirfoddol) wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r targedau arbedion ar gyfer projectau cyfran un ar y trywydd iawn i gael eu cyflenwi.
- Mae rhaglen sylweddol o ymgysylltu â staff eisoes wedi cyflenwi ystod o gynhyrchion a chanlyniadau sy'n hysbysu'r ffordd y rheolir y Cyngor.

## 2 I gefnogi mwy o bobl i fod yn annibynnol.

Ein casgliad yw ein bod wedi cyflawni'r hyn a ddywedon ni y bydden ni'n ei wneud yn 2015/16. Rydym yn gwybod hyn oherwydd:

- Cafwyd buddsoddiad sylweddol pellach mewn gwasanaethau adsefydlu ac ailalluogi yn y Fro gan alluogi dros 80% o bobl a dderbyniodd wasanaeth i wella'u lefelau o annibyniaeth.
- Mae'r cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar dechnolegau cynorthwyol megis Teleofal wedi galluogi mwy o bobl i aros yn eu cartrefi eu hunain yn ddiogel a chael gwell ansawdd bywyd.
- Rhoddwyd cefnogaeth i fwy o ddefnyddwyr gwasanaeth gydag asesiadau ariannol a chyngor budd-daliadau, sydd wedi eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus, a chyfrannu at gynnal eu hannibyniaeth am gyfnod hwy.
- Trwy wasanaethau Cefnogi Pobl yr ydym yn helpu pobl sy'n fwy agored i niwed i gadw eu hannibyniaeth a gwella eu lles cyffredinol. Dywedodd 100% o ddefnyddwyr gwasanaeth y gorffennol a'r presennol eu bod yn fodlon â'r gefnogaeth a ddarparwyd er mwyn eu galluogi i gynnal eu hannibyniaeth.
- Rydym yn parhau i wneud gwelliannau o ran amseroedd cyflenwi addasiadau cartref gan gyfrannu at i drigolion allu cadw eu hannibyniaeth am gyfnod hwy.

## 3 Cynnal a gwella canol trefi Bro Morgannwg er lles trigolion, ymwelwyr a busnesau.

Cyflawnwyd ein nodau bwriadedig am 2015/16. Rydym yn gwybod hyn oherwydd:

- Trwy amrywiol fentrau, rydym yn cynyddu'r buddsoddiad yng nghanol ein trefi i'w gwneud yn ddewisiadau mwy ymarferol a deniadol i fusnesau, trigolion ac ymwelwyr.
- Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynyddu atyniad y Fro fel cyrchfan i ymwelwyr a thwristiaeth. Yn ôl ymchwil twristiaeth STEAM, tyfodd twristiaeth yn y Fro o 5% yn 2015 gyda nifer yr ymwelwyr o fwy na 3.96 miliwn, cynnydd o 5.6% ar y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gefnogir gan dwristiaeth i 2,947, cynnydd o 5.7% ar y flwyddyn flaenorol. Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yn y Fro oedd £219.71 miliwn, cynnydd o 4.7% ar y flwyddyn flaenorol.

## 4 Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant (NEET).

Ein casgliad yw ein bod wedi cyflawni'n nodau bwriadedig am y flwyddyn. Rydym yn gwybod hyn oherwydd:

- Rydym wedi gweld gostyngiad cyffredinol mewn lefelau NEET o 3.8% yn 2013/14 i 1.93% eleni trwy ddull cydlynol a gyflenwyd gyda phartneriaid.
- Cafwyd gostyngiad parhaus mewn lefelau NEET ym Mlynyddoedd 11, 12 ac 13. Mae ein dull cydlynol gyda phartneriaid wedi ein galluogi i adnabod pobl ifanc sy'n agored i niwed a sicrhau eu bod yn cael cymorth amserol a phriodol.
- Mae dros 95% o bobl ifanc 16-18 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant o'i gymharu â 93% yn y flwyddyn flaenorol.
- Rydym yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r sector gwirfoddol a darparwyr hyfforddiant er mwyn cynyddu cyfleoedd a darpariaeth i ostwng lefelau NEET.

## 5 Cau'r bwlch rhwng cyflawniad disgyblion sy'n cael a rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim.

At ei gilydd, ein casgliad yw ein bod wedi cyflawni ein nodau bwriadedig yn rhannol ar gyfer 2015/16. Rydym yn gwybod hyn oherwydd:

- Yn gyffredinol, mae safonau wedi gwella ym mhob un o'r dangosyddion perfformiad allweddol, ac ym mhob achos bron, bu cyfradd y gwelliant yn fwy yn y Fro na chyfartaledd Cymru. Mae presenoldeb yn yr ysgol yn parhau i fod yn y 25% uchaf o berfformwyr yng Nghymru ar gyfer ysgolion uwchradd a chynradd.
- Drwy ein gwaith rhagweithiol gydag ysgolion, ni adawodd unrhyw fyfyriwr addysg orfodol heb gymhwyster cymeradwy ac rydym yn cymryd camau pendant i ymdrin ag unrhyw danberfformio mewn ysgolion er mwyn gwella lefelau cyrhaeddiad ymhellach.
- Ym mhob un o'r prif ddangosyddion perfformiad ar draws pob cyfnod, mae perfformiad y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim wedi gwella ers 2012, er nid bob amser ar yr un gyfradd â'u cyfoedion. Ers 2012, yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn yr awdurdod wedi gwella ar gyfradd uwch na'u cyfoedion. Mae hyn wedi culhau'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim o'i gymharu â'u cyfoedion. Fodd bynnag, dros yr un cyfnod yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4 mae'r duedd wella ymhlith y grŵp hwn o ddisgyblion yn llai cyson na'u cyfoedion.
- Rydym yn cydnabod er gwaethaf y gwelliannau hyd yn hyn, nad yw'r safonau a gyflawnir gan blant sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim eto'n cwrdd â safonau plant eraill yn yr holl gyfnodau allweddol, ac mae hyn yn parhau yn ffocws allweddol i'r Cyngor yn y tymor hir.






# CANFOD MWY

**Os oes gennych unrhyw sylwadau ar ôl darllen y crynodeb hwn, neu eisiau canfod mwy, rhowch wybod i ni drwy gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:**

| | |
|---|---|
| • **Yn ysgrifenedig:** | Perfformiad a Datblygiad, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU |
| • **Trwy e-bost:** | gwelliannau@bromorgannwg.gov.uk |
| • **Dros y ffôn:** | 01446 700111 |

Gallwch gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu â'r Cyngor trwy ymuno â'n panel dinasyddion, Barn y Fro, a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau a gynhelir gan, neu ar ran, y Cyngor a'i bartneriaid, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cwblhewch y ffurflen fer ar-lein.

